OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2020 No. 1581

Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaeth Arbed) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

RHAN 3

Diwygio is-ddeddfwriaeth Cymru

Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013

13.—(1) Mae Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 10(b), yn lle "i'r Undeb Ewropeaidd" rhodder "i Brydain Fawr".

(3) Yn rheoliad 14(1)(d), yn lle "nhiriogaeth yr UE" rhodder "y Deyrnas Unedig".

(4) Hepgorer rheoliad 15.

(5) Yn Atodlen 1—

(a) yn Nhabl 1, yn y cofnod ar gyfer Erthygl 26.1, yn yr ail golofn, yn lle "Comisiwn" rhodder "Awdurdod";

(b) Yn Nhabl 2—

(i) yn y cofnod ar gyfer Erthygl 21.1 (fel y'i darllenir gydag Erthygl 22), yn yr ail golofn, yn lle "mewn iaith a deellir yn hawdd gan y prynwyr" rhodder "yn Saesneg, neu yn Gymraeg a Saesneg";

(ii) yn y cofnod ar gyfer Erthygl 26.2, yn yr ail golofn, yn lle "y Comisiwn" rhodder "yr Awdurdod".

(6) Yn Atodlen 2, yn Nhabl 1—

(a) yn y cofnod ar gyfer Erthygl 10, yn yr ail golofn, yn lle "restr yr Undeb" rhodder "y rhestr ddomestig";

(b) yn y cofnod ar gyfer Erthygl 19.2, yn yr ail golofn, yn lle "Comisiwn" rhodder "Awdurdod";

(c) yn y cofnod ar gyfer Erthygl 19.3, yn yr ail golofn, yn lle "Comisiwn" rhodder "Awdurdod".

(7) Yn Atodlen 3, yn Nhabl 1, yn y cofnod ar gyfer Erthygl 9.5, yn yr ail golofn, yn lle "Comisiwn" rhodder "Awdurdod".

(8) Yn Atodlen 4, yn Nhabl 1—

(**1**) O.S. 2013/2591 (Cy. 255), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Fe'i ddiwygiwyd yn rhagolygol gan O.S. 2019/425 (Cy. 99) a 2019/1046 (Cy. 185) ond mae'r diwygiadau hynny wedi eu hepgor, yn y drefn honno, gan reoliadau 2(4) a 5(4) o'r Rheoliadau hyn.

(a) yn y cofnod ar gyfer Erthygl 4, yn yr ail golofn, yn lle "yn rhestr yr Undeb" rhodder "yn y rhestr ddomestig";

(b) yn y cofnod ar gyfer Erthygl 14.1, yn yr ail golofn, yn lle "Comisiwn" rhodder "Awdurdod";

(c) yn y cofnod ar gyfer Erthygl 14.2, yn yr ail golofn, yn lle "Comisiwn" rhodder "Awdurdod".